

ATODLEN

Rheoliad 3(7)

“Atodlen 3

Rheoliad 10

## RHEOLAU SYLFAENOL AR GYFER PENDERFYNU YMFUDIAD PLWM A CHADMIWM

### 1. Yr hylif prawf

Asid asetig 4 % (v/v), mewn hydoddiant dyfrllyd a baratowyd yn ffres.

### 2. Amodau'r prawf

- (a) Cynhalier y prawf ar dymheredd o  $22 \pm 2$  °C am gyfnod o  $24 \pm 0,5$  awr.
- (b) Pan yw ymfudiad plwm i'w benderfynu, rhodder gorchudd ar y sampl mewn modd priodol i'w diogelu a gadawer hi yn agored i'r amodau goleuo arferol sydd mewn labordy. Pan yw ymfudiad cadmiwm neu blwm a chadmiwm i'w benderfynu, rhodder gorchudd ar y sampl i sicrhau bod yr arwyneb y mae profion i'w cynnal arno yn cael ei gadw mewn tywyllwch llwyr.

### 3. Llenwi

#### (a) Samplau y gellir eu llenwi—

Llenwer yr eitem â hydoddiant asid asetig 4 % (v/v) hyd at lefel nad yw'n uwch nag 1 mm o'r pwynt gorlifo; mesurir y pellter o ymyl uchaf y sampl. Dylid llenwi samplau gydag ymyl gwastad neu ymyl sy'n goleddfu ychydig fel nad yw'r pellter rhwng arwyneb yr hylif a'r pwynt gorlifo yn fwy na 6 mm wrth fesur ar hyd yr ymyl sy'n goleddfu.

#### (b) Samplau na ellir eu llenwi—

Yn gyntaf, gorchuddir arwyneb y sampl na fwriedir iddo ddod i gysylltiad â bwydydd â haenen amddiffynnol addas sy'n gallu gwrthsefyll gweithrediad yr hydoddiant asid asetig 4 % (v/v). Yna boddir y sampl mewn cynhwysydd sy'n cynnwys cyfaint gwybyddus o hydoddiant asid asetig yn y fath fodd y bydd yr arwyneb y bwriedir iddo ddod i gysylltiad â bwydydd yn cael ei orchuddio'n llwyr gan yr hylif prawf.

### 4. Penderfynu'r arwynebedd

Mae arwynebedd yr eitemau yng Nghategori 1 yn hafal i arwynebedd y menisgws a ffurfir gan yr arwyneb hylif rhydd a geir wrth gydymffurfio â'r gofynion llenwi a nodir ym mharagraff 3.

Atodlen 4

Rheoliad 10

## DULLIAU DADANSODDI AR GYFER PENDERFYNU YMFUDIAD PLWM A CHADMIWM

### 1. Amcan a maes cymhwysio

Mae'r dull yn caniatáu i'r ymfudiad penodol o blwm a/neu gadmiwm gael ei benderfynu.

### 2. Yr egwyddor

Penderfynir yr ymfudiad penodol o blwm a/neu gadmiwm gan ddefnyddio dull dadansoddi drwy gyfrwng offeryn sy'n bodloni'r meini prawf perfformiad ym mharagraff 4.

### 3. Adweithyddion

Rhaid i bob adweithydd fod o ansawdd dadansoddol, oni phennir fel arall.

Pan fo cyfeiriad at ddŵr, mae'n golygu dŵr a ddistyllwyd neu ddŵr o ansawdd cyfatebol.

- (a) asid asetig 4 % (v/v), mewn hydoddiant dyfrllyd

Ychwaneger 40 ml o asid asetig grisialog at ddŵr fel bod y lefel yn cyrraedd 1 000 ml.

- (b) Hydoddiannau stoc

Paratoer hydoddiannau stoc sy'n cynnwys 1 000 mg/litr o blwm ac o leiaf 500 mg/litr o gadmiwm yn eu trefn mewn hydoddiant asid asetig 4 %, fel y cyfeirir ato yn is-baragraff (a).

#### 4. Meini prawf perfformiad y dull dadansoddi drwy gyfrwng offeryn

- (a) Rhaid i'r terfyn canfod ar gyfer plwm a chadmiwm fod yn hafal i neu'n is na—  
0,1 mg/litr ar gyfer plwm,  
0,01 mg/litr ar gyfer cadmiwm.

Diffinnir y terfyn canfod fel y crynodiad o'r elfen yn yr hydoddiant asid asetig 4 %, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3(a), sy'n rhoi signal sy'n hafal i ddwywaith sŵn cefndir yr offeryn.

- (b) Rhaid i'r terfyn meintoliad ar gyfer plwm a chadmiwm fod yn hafal i neu'n is na—  
0,2 mg/litr ar gyfer plwm,  
0,02 mg/litr ar gyfer cadmiwm.

- (c) Adennill. Rhaid i'r hyn a adenillir o blwm a chadmiwm a ychwanegir at yr hydoddiant asid asetig 4 %, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3(a), ddod o fewn 80-120 % o'r swm a ychwanegir.

- (d) Penodoldeb. Rhaid i'r dull dadansoddi drwy gyfrwng offeryn sy'n cael ei ddefnyddio fod yn rhydd o ymyriannau matrices ac ymyriannau sbectrol.

#### 5. Dull

- (a) Paratoi'r sampl

Rhaid i'r sampl fod yn lân ac yn rhydd o sail neu sylwedd arall sy'n debygol o effeithio ar y prawf.

Golcher y sampl mewn hydoddiant sy'n cynnwys glanedydd hylif i'r cartref ar dymheredd o tua 40 °C. Rinsier y sampl yn gyntaf mewn dŵr tap ac wedyn mewn dŵr wedi ei ddistyllu neu ddŵr o ansawdd cyfatebol. Draenier y sampl a'i sychu i osgoi unrhyw staen. Nid yw'r arwyneb sydd i'w brofi i'w drafod ar ôl iddo gael ei lanhau.

- (b) Penderfynu plwm a/neu gadmiwm

Cynhelir prawf ar y sampl a baratowyd yn y modd hwn o dan yr amodau a osodir yn Atodlen 3.

Cyn cymryd yr hydoddiant prawf ar gyfer penderfynu plwm a/neu gadmiwm, homogeneiddier cynnwys y sampl drwy ddull priodol, sy'n osgoi colli unrhyw hydoddiant neu'n osgoi sgrafellu'r arwyneb syn cael ei brofi.

Cynhalier prawf gwag ar yr adweithydd a ddefnyddir ar gyfer pob cyfres o benderfyniadau.

Cynhalier y penderfyniadau ar gyfer plwm a/neu gadmiwm o dan amodau priodol.

Atodlen 5

Rheoliad 10A

### DATGANIAD O GYDYMFFURFEDD

1. Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig y cyfeirir ato yn rheoliad 10A gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

- (a) enw a chyfeiriad y cwmni sy'n gweithgynhyrchu'r eitem geramig orffenedig ac enw a chyfeiriad y mewnoforiwr sy'n ei mewnforio i'r Deyrnas Unedig;
- (b) manylion adnabod yr eitem geramig;
- (c) dyddiad y datganiad;
- (d) y cadarnhad bod yr eitem geramig yn bodloni'r gofynion perthnasol yn y Rheoliadau hyn a Rheoliad 1935/2004.

**2.** Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig ganiatáu adnabod yn hawdd y nwyddau y'i dyroddwyd ar eu cyfer a rhaid iddo gael ei adnewyddu pan fydd newidiadau sylweddol yn y cynhyrchiant yn peri newidiadau yn ymfudiad plwm neu gadmiwm neu'r ddau."